

## **Heol y Plwca - Croesfan Sebra ar Dwmpath (S278 – Llety Myfyrwyr)**

### **Disgrifiad o Gynnig y Cynllun**

Mae'r Cyngor wedi gwneud cais i gynnwys croesfan sebra ddyrchafedig o fewn y cytundeb cynllun sy'n gysylltiedig â'r datblygiad llety myfyrwyr ar Heol y Plwca. Caiff y gwaith ei ariannu'n llawn gan y datblygwr.

Mae'r cynigion ar gyfer y ffordd fawr sy'n cael eu dangos ar gynllun yr ymgynghoriad yn cynnwys dileu'r lloches bresennol ar gyfer cerddwyr, a rhoi'r trefniadau croesfan sebra ar waith yn ei lle. Bydd cyflwyno'r mesurau hyn yn lleihau cyflymder cerbydau yn ardal y datblygiad preswyl arfaethedig a'i gwneud yn fwy diogel i gerddwyr.

Er mwyn cyflawni'r project hwn, mae angen newid amod cynllunio yn ymwneud â chais cyf. 15/02057/MJR a gafodd ganiatâd cynllunio ar 5 Chwefror 2016.

Dim ond ynghylch elfen arafu traffig y cynllun mae'r Cyngor yn ymgynghori, yn unol â Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffordd) 1999.

### **Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig**

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros groesfan pâl. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â rhwystrau ymwithiol sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. Croesfan sebra sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar gyffordd fwrdd, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Bolard Goleuedig. Arwydd traffig wedi ei oleuo o'r tu mewn, sydd fel arfer â saeth 'cadwch i'r chwith' arno a osodir ar ynysoedd traffig er mwyn ei gwneud yn anghyfreithlon i yrwyr ei oddiweddyd ar yr ochr dde.

# Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun isod.


A Proud Capital  
Prifddinas Falch



Mae pecyn ymgynghori llawn ar gael yn

[www.cardiff.gov.uk/transport-projects](http://www.cardiff.gov.uk/transport-projects). Fel arall, e-bostiwch

[TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) neu ffoniwch 029 2233 0111 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **25/09/2017**.



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown below.** A full consultation pack is available at [www.cardiff.gov.uk/transport-projects](http://www.cardiff.gov.uk/transport-projects). Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2233 0111 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **25/09/2017**.